OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3239

# Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008

## RHAN 2

Swyddogion Atebol

### Swyddogion atebol i asesu pryderon ac ymchwilio iddynt

**16.**—(1) Rhaid i swyddog atebol sefydlu a gweithredu, neu sicrhau bod ei gorff dynodedig yn sefydlu a gweithredu, trefniadau priodol ar gyfer—

(a) asesu pryderon a fynegwyd ynghylch digwyddiadau a oedd yn ymwneud â, neu a allai fod wedi ymwneud â rheoli neu ddefnyddio cyffuriau a reolir yn amhriodol gan berson sydd, o ran ei gorff dynodedig, yn unigolyn perthnasol; a

(b) ymchwilio i bryderon o'r fath.

(2) Os, ar ôl asesiad o bryder a fynegwyd, bydd y swyddog atebol yn penderfynu bod angen ymchwiliad, caiff y swyddog atebol—

(a) cyflawni'r ymchwiliad hwnnw'n bersonol;

(b) gwneud cais ysgrifenedig i swyddog neu gyflogai arall yn ei gorff dynodedig gyflawni'r ymchwiliad; neu

(c) os yw'n briodol, ac yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6)—

(i) gwneud cais ysgrifenedig i swyddog neu gyflogai (gan gynnwys, yn achos corff dynodedig, swyddog atebol) o unrhyw rai o'r cyrff cyfrifol a restrir ym mharagraff (3) i gyflawni'r ymchwiliad, neu

(ii) gwneud cais ysgrifenedig i nifer o swyddogion neu gyflogeion o unrhyw rai o'r cyrff cyfrifol a restrir ym mharagraff (3) i ffurfio tîm ymchwilioar y cyd er mwyn cyflawni'r ymchwiliad.

(3) Mae'r canlynol yn gyrff cyfrifol at ddibenion adran 18 o Ddeddf 2006 a'r rheoliad hwn—

(a) corff dynodedig;

(b) AGIC;

(c) Yr Is-adran Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG;

(ch) AGGCC;

(d) heddlu;

(dd) corff rheoleiddiol.

(4) Caiff swyddog atebol ddefnyddio ei bwerau o dan baragraff (2)(c) i ofyn am ymchwiliad (neu ymchwiliad ar y cyd gyda chyrff cyfrifol eraill) gan yr Is-adran Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i unrhyw dwyll posibl ynglyn â'r gwasanaeth iechyd.

(5) Rhaid i'r swyddog atebol gadw, neu sicrhau bod ei gorff dynodedig yn cadw, cofnodion o—

(a) unrhyw gais a wnaed i swyddog atebol o gorff dynodedig arall, neu i gorff cyfrifol arall, o dan baragraff (2)(c) i ymchwilio i bryder a oedd yn ymwneud â, neu a allai fod wedi ymwneud â rheoli neu ddefnyddio cyffuriau a reolir yn amhriodol;

(b) unrhyw asesiad neu ymchwiliad o bryder a oedd yn ymwneud â, neu a allai fod wedi ymwneud â rheoli neu ddefnyddio cyffuriau a reolir yn amhriodol gan unigolyn perthnasol a gyflawnwyd gan y swyddog atebol neu ei gorff dynodedig; ac

(c) unrhyw hysbysiad a roddwyd i gorff cyfrifol arall neu swyddog atebol arall o dan reoliad 25(4).